



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol I D Hooson
Heol Caradoc
Pentredwr
Rhos
Wrecsam
LL14 2DX**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol I D Hooson

Ysgol gynradd ddwyieithog ddynodedig yw Ysgol I. D. Hooson. Lleolir yr ysgol ym mhentref Rhosllanerchrugog ar gyrion tref Wrecsam. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 311 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 36 oed meithrin. Mae 13 dosbarth oed cymysg yn yr ysgol gan gynnwys dau ddosbarth ar gyfer plant meithrin.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol (18%). Mae tua 5% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 12% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill 2016. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae'r disgyblion a'r oedolion yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn ystod eu cyfnod yno, mae rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol gyda'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg. Mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog gyda phwyslais amlwg ar ddatblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion. Mae hon yn nodwedd gref o'r ysgol ac yn cyfrannu'n hynod o effeithiol i wella deilliannau a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth drylwyr o'r ysgol ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am safonau.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Rhannu nodweddion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn her i gyflawni hyd eithaf eu gallu
- A2 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wella eu medrau rhifedd ac agweddau o'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac yn cyflawni'n dda.

Er bod y Gymraeg yn iaith newydd i bron bob un o'r disgyblion ar fynediad i'r ysgol, mae medrau llafar y rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn ac yn fuan iawn yn y dosbarth meithrin a derbyn. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 drafod eu gwaith am y Gryffalo. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon, yn dangos balchder tuag at y Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cyfrannu'n bwrpasol yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn trafod eu gwaith yn ddeallus gydag aeddfedrwydd, gan ddefnyddio geirfa ymestynnol a chyfoethog i greu effaith, er enghraifft wrth drafod bywyd Anne Frank.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da bob blwyddyn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir ac yn dechrau adnabod geiriau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon gyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, er enghraifft wrth chwilio am wybodaeth am y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Maent yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn erbyn diwedd y cyfnod. Maent yn ysgrifennu'n annibynnol, yn deall gwahanol arddulliau ysgrifennu'n dda ac yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth gyflwyno taflen wybodaeth am ailgylchu. Wrth symud ymlaen trwy gyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith gan baragraffu ac atalnodi'n gynyddol gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn fedrus, er enghraifft wrth ysgrifennu stori ddychmygol am fywyd plentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Er hyn, nid yw safon cyflwyniad a llawysgrifen ychydig o ddisgyblion yn ddigon taclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae ganddynt afael cadarn ar ffeithiau rhif, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur. Maent yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus, er enghraifft trwy brofiadau ymarferol fel adeiladu castell tywod ar gyfer Owain Glyndŵr. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo perimedr i amcangyfrif cost ffens o amgylch gardd. Er hyn, nid ydynt bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd ar yr un lefel mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm ag y maent mewn gwersi mathemateg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn hyderus i gofnodi eu gwaith. Maent yn rheoli tegau electronig yn gywir ac yn chwarae gemau antur yn gelfydd. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi'r gwahanol ddeunyddiau sy'n cael eu hailgylchu gan y dosbarth. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, ar gyfnod y Tuduriaid er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata i greu graffiau i arddangos o ba ddinasoedd teithiodd yr ifaciwis i Gymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n datblygu dealltwriaeth dda o drin data i'w galluogi i ddilyn trywyddau ymholi penodol ar draws y cwricwlwm.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llawer o'r disgyblion.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth ac yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus ac annibynnol. Maent bob amser yn barod i ddysgu, yn canolbwyntio'n dda, ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau newydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Maent yn dangos gallu cynyddol i gydgyllunio, er enghraifft ar gyfer yr 'awr arbennig' ac i fynegi barn am yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae hyn yn eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i ddysgu.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol, yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn teimlo'n gwbl ddiogel yno. Gwyddant at bwy i droi am gyngor petai rhywbeth yn eu poeni ac yn hyderus fod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae bron bob un yn gwrtais a meddylgar ac yn dangos parch a gofal tuag at ymwelwyr. Maent yn ofalgar o'i gilydd yn ystod amseroedd egwyl a chinio, gyda disgyblion hŷn yn barod iawn i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau fel 'mets gret' gan helpu i gadw gofal am y rhai iau a'u hannog nhw i chwarae adeg egwyl. Mae hyn yn hybu gofal a chyfrifoldeb ymhlith y disgyblion. Mae gan ran fwyaf ohonynt ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch o'r cyfleoedd a gânt i ddatblygu eu medrau arwain. Trwy amrywiol bwyllgorau a grwpiau sydd yn cynrychioli disgyblion, maent yn cyfrannu'n briodol at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Siarter Iaith yn arwain gweithgareddau llwyddiannus i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd i gefnogi elusennau amrywiol fel Plant Mewn Angen a chasglu blychau Nadolig i blant llai ffodus na hwy. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn y gymuned a'r byd ehangach.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r cyngor ysgol yn hybu bwyta'n iach trwy drefnu'r siop ffrwythau a byrbrydau iachus yn ddyddiol. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd cadw'n heini gan ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgarwch corfforol yn egniol a rheolaidd, er enghraifft mewn clybiau rhedeg a gymnasteg.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae athrawon yn ffurfio perthynas waith dda gyda disgyblion ac yn cymell a rheoli ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus. Mae awyrgylch ddysgu gadarnhaol a chefnogol ym mron pob dosbarth. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol a datblygu brwdfrydedd y disgyblion tuag at ddysgu. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Maent yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes, dda ac yn defnyddio'r wybodaeth yn gelfydd wrth gynllunio gwersi diddorol a phrofiadau dysgu cyfoethog. Maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol, yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau rhediad da i'r sesiynau. Maent yn darparu tasgau sydd wedi eu teilwra'n briodol ar gyfer yr ystod gallu o fewn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau dychmygus ynghyd â chyflymder y gwersi yn nodwedd gref o'r addysgu. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau yn frwdfrydig ac yn annibynnol. Yn yr ychydig o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae tueddiad i athrawon or-arwain, sydd yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i weithio'n annibynnol. Mae hyn hefyd yn cyfyngu ar lefel yr her, yn enwedig i'r disgyblion o allu uwch.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth cadarnhaol i ddisgyblion ac yn ymyrryd yn sensitif. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a'r meini prawf llwyddiant. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain. Er hynny, anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i sylwadau'r athrawon yn eu llyfrau.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llwyddiannus ac mae'r athawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynllunio cydbwysedd effeithiol o weithgareddau o dan arweiniad staff a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ardaloedd o fewn y dosbarth, er enghraifft wrth greu tŷ y dyn bach sinsir a chastell yn cynnwys arteffactau hynafol ar gyfer Owain Glyndwr. Maent hefyd yn gwneud defnydd llawn o'r ardaloedd tu allan, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 ddod o hyd i wahanol ddeunyddiau i wneud hylif hud yn yr ardal goedwig. Mae hyn yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn effeithiol iawn. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn gwersi iaith a mathemateg. Maent yn darparu cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth annog disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i geisio datrys argyfwng Ysbyddaden Bencawr a dod o hyd i'w grib aur. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd a TGCh i lefel uchel ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trin data a modelu wedi datblygu'n ddigon effeithiol er mwyn iddynt gymhwyso'r medrau hyn yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi ystyried y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn ofalus, gan ddechrau mynd i'r afael â bylchau yn ei darpariaeth bresennol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae staff yn creu ethos hapus, croesawgar a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwртеisi, parch ac ymroddiad yn effeithiol. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn gadarnhaol tuag at ei gilydd ac mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn gydwobodol i'w holl weithgareddau. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau cyd-addoli yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrion, ystyried safbwyntiau eraill a hybu gwerthoedd yr ysgol, fel dyfalbarhad.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli gyda'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy themâu diddorol wedi eu seilio ar chwedl Culhwch ac Olwen a hanes Owain Glyndŵr. Mae'r gymuned yn holl bwysig i'r ysgol ac mae athrawon yn cyllunio'n effeithiol i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am eu hardal leol a'i henwogion, yn enwedig y bardd I.D. Hooson. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ac ymweliadau lleol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion hŷn wrth greu'r ffilm Rhos Rhyfedd ar y pentref. O ganlyniad, mae disgyblion yn arddangos balchder tuag at eu bro.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn hynod o effeithiol trwy weithdai animeiddio, astudio artistiaid Cymreig, gwersi cerddoriaeth, clybiau a chystadlu mewn eisteddfodau. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at feithrin eu hunanhyder, eu galluoedd mynegiannol a'u gallu i weithio mewn tîm. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau personol unigolion yn gyson a chaiff disgyblion eu canmol ar y 'Wal Wych', ar y 'Gôl Amser Aur' ac mewn gwasanaethau boreol. Mae hyn yn cael effaith bositif ar agwedd a brwdfrydedd y disgyblion a'u hannog i ymfalchïo yn eu gwaith ac i chwarae rhan lawn yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion ymuno ag amrywiol gynghorau llais y disgybl, sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r pwyllgor presenoldeb wedi mynd ati gyda brwdfrydedd i bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb uchel. Mae'r cyngor lles wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag anawsterau sy'n codi. Mae hyn wedi arfogi grŵp o ddisgyblion i drin, trafod a cheisio datrys problemau sy'n codi rhwng eu cyfoedion.

Mae hyn yn hyrwyddo eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae elfen o or-arwain gweithgareddau'r cynghorau hyn gan athrawon yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau cydweithio ac arwain yn llawn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o agweddau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn fedrus i sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion a grwpiau penodol sydd angen cymorth ychwanegol. Mae staff yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol a phersonol y disgyblion o oed cynnar er mwyn gweithredu ymyraethau priodol i alluogi iddynt wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ar gyfer y disgyblion hyn. Defnyddir cymorthyddion dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion yn eu dysgu ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth. Mae staff yn gwerthuso cynnydd disgyblion yn rheolaidd, gyda'r disgyblion a'r rhieni yn chwarae rhan lawn yn y broses adolygu.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth bugeiliol gwerthfawr i'r disgyblion. Maent yn darparu ymyraethau sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i fynegi eu teimladau ac yn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o fywyd yr ysgol. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion a'u rhieni. Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae dulliau cyfathrebu priodol yn sicrhau bod rhieni yn gallu codi unrhyw faterion sy'n eu pryderu am addysg a lles eu plant. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rieni drafod cynnydd a thargedau datblygiad eu plant.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddo weledigaeth sy'n seiliedig ar feithrin parch ac annog pob disgybl i lwyddo mewn awyrgylch gofalgwr, Gymreig. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr.

O dan arweiniad y pennaeth, mae'r uwch dîm rheoli yn datblygu'n arweinwyr hyderus. Mae'r staff yn ymroddgar, yn cydweithio'n agos fel tîm, gan ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac effeithiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd i drafod yn rheolaidd a chynllunio ar y cyd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n gadarn ar safonau a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Rhoddir sylw trwyadl i adolygu effaith gweithredu blaenrol a nodir penderfyniadau a champau nesaf yn gwbl eglur. Mae'r ysgol wedi sefydlu timau traws-ysgol i weithio ar y cwricwlwm newydd sy'n sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i staff i olrhain a monitro cynnydd disgyblion, i werthuso'r ddarpariaeth ac i gyfrannu at osod targedau gwella. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith yr holl staff, ac yn cyfrannu'n dda at sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r broses hunanwerthuso yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol gyda ffocws clir ar ddeilliannau disgyblion. Mae gweithgareddau monitro rheolaidd yn rhan allweddol o brosesau codi safonau parhaus yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r adroddiadau monitro a baratoir gan arweinwyr yn ddefnyddiol a thrylwyr. Maent yn rhoi darlun clir o safonau a darpariaeth. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r broses yn seiliedig ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol ynglŷn â chyflawniad disgyblion sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ganfod ac ymateb i farn disgyblion a rhieni wrth adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r adroddiad hunanwerthuso yn nodi cryfderau'r ysgol yn glir ac yn sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd sydd angen sylw pellach. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r broses hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol. Trwy gydweithio â'r staff, arsylwi ar wersi a thrafod enghreifftiau o waith gyda'r disgyblion, maent yn chwarae rôl weithredol ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. Mae hyn, ynghyd â derbyn adroddiadau pwrpasol y pennaeth, yn arwain at ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ddarpariaeth a'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n llwyddiannus ac yn eu galluogi i herio'r ysgol am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae'r pennaeth yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i staff elwa o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n berthnasol i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad athrawon Blwyddyn 3 a 4 wrth fabwysiadu agweddau o athroniaeth y cyfnod sylfaen er mwyn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i staff gymryd rhan mewn gweithgoreu ac i ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer dda. Mae hyn wedi arwain at wella medrau llafar ac ysgrifennu'r disgyblion. Mae staff yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a chyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gynnig ystod o brofiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'r disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol er mwyn bodloni blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau yn fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gyfoethogi'r ddarpariaeth drwy nifer dda o raglenni ymyrraeth sy'n cyfrannu at ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ac i hyrwyddo'u lles.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2019